

Owner / Occupier

**Please Ask For/Gofynnwch Am:** Kirpal Singh

**Fy Nghyf/ My Ref: P-066/KS Eich Cyf/ Your Ref:**

**Dyddiad / Date : 9 March 2018**

Dear Sir / Madam

**Re: Cwmaman Safe Routes in Community – 20mph Speed Limit and Traffic Calming Measures, Glanaman Road, Cwmaman.**

As part of the agreement for the construction of the new school within the community of Cwmaman, the Planning permission included conditions to the school development for the creation of safe walking routes to and from the school for the local community.

To improve the safety for the school users, it has been proposed that a 20 mph speed limit be introduced in front of the proposed school within Glanaman Road. Within this area, traffic calming measures are to be implemented including speed humps, speed tables and parking restrictions. Along with these improvements, the width of the southern footway is to be increased from 1.0m to 1.8m.

Details of the proposals are shown on the attached drawing P066/114. You may also wish to view the proposals at [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic)

I shall be pleased to receive your observations on this proposal and for your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk) Responses should be returned to me with your observations by 30/03/2018

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance but should you require further information, please do not hesitate to contact me.

Yours Sincerely,

Kirpal Singh  
**Graduate Officer, Traffic Management.**

Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



## Perchenog/Preswylydd

Gofynnwch am:/Please ask for: Kirpal Singh

Fy Nghyf: / My Ref: P-066/KS Eich Cyf: / Your Ref: Dyddiad:/Date: 9 Mawrth 2018

Annwyl Syr/Fadam

**Parthed: Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Cwmaman - Terfyn Cyflymder 20mya a Mesurau Arafu Traffig, Heol Glanaman, Cwmaman.**

Yn rhan o'r cytundeb ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd yng nghymuned Cwmaman, roedd y caniatâd Cynllunio yn cynnwys amodau i ddatblygiad yr ysgol ar gyfer creu llwybrau cerdded diogel i'r ysgol ac oddi yno i'r gymuned leol.

Er mwyn gwella diogelwch defnyddwyr yr ysgol, mae'r Cyngor wedi cynnig cyflwyno cyfyngiad cyflymder o 20mya o flaen yr ysgol arfaethedig ar Heol Glanaman. Caiff mesurau arafu traffig eu gweithredu yn yr ardal yma, gan gynnwys twmpathau ffyrdd gyda thopiau gwastad a chyfyngiadau parcio. Ynghyd â'r gwelliannau yma, caiff lled y llwybr troed deheuol ei gynyddu o 1.0m i 1.8m.

Mae manylion y cynigion i'w gweld yn y llun, P066/114, sydd ynghlwm wrth y llythyr yma. Efallai y byddwch chi'n dymuno gweld y cynlluniau arfaethedig ar wefan [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig)

Mae croeso i chi anfon eich sylwadau aton ni ynglŷn â'r cynnig yma. Er hwylustod, mae ffurflen ac amlen barod ynghlwm wrth y llythyr yma. Fel arall, mae croeso i chi ymateb drwy anfon neges e-bost i [gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk). Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 30/03/2018

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor wrth i ni ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond, fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Rydw i'n gobeithio bydd yr wybodaeth uchod o gymorth i chi, ond, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Kirpal Singh  
Swyddog Graddedig, Rheoli Traffig.

Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

